# Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 6ed Adroddiad Monitro Blynyddol 2022 (Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd am y cyfnod 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022)

## Crynodeb Gweithredol

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd ar 28 Ionawr 2016. Fel rhan o’r broses cynllunio datblygu statudol, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

Mae'r AMB yn rhoi'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y CDLl ac yn y pen draw yn penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLl yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithio'n effeithiol. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith y mae'r CDLl yn ei chael ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr awdurdod ac yn helpu i nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol sylweddol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun.

Dyma'r chweched AMB i'w baratoi ers mabwysiadu CDLl Caerdydd ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Cyhoeddwyd yr AMB cyntaf, yr ail a'r trydydd ar 31 Hydref 2017, 31 Hydref 2018 a 31 Hydref 2019. Oherwydd pandemig Covid, nid oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno a chyhoeddi AMB erbyn 31 Hydref 2020 ac ni chyhoeddwyd pedwerydd AMB o’r herwydd. Fodd bynnag, roedd data'n dal i gael ei gasglu lle bo hynny'n bosibl ac fe'i cynhwysir yn y gyfres amser a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd y pumed AMB ar 31 Hydref 2021. Mae'r data hwn yn darparu gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol y bydd AMBau olynol yn gallu tystio i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

### Canfyddiadau Allweddol y Chweched Broses Fonitro 2021-2022

### Gwybodaeth Gyd-destunol

Ceir crynodeb o'r deunydd cyd-destunol perthnasol sydd wedi'i gyhoeddi ers mabwysiadu'r Cynllun ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol yn Adran 3. Bydd goblygiadau rhai o'r newidiadau cyd-destunol yn digwydd dros y tymor hwy a bydd AMBau dilynol yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeunydd cyd-destunol perthnasol ac yn rhoi ystyriaeth bellach i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

### Monitro’r Cynllun Datblygu Lleol - Dadansoddiad Polisi

Mae Adran 5 yn asesu sut mae polisïau strategol y Cynllun a pholisïau ategol cysylltiedig yn perfformio yn erbyn y targedau a'r canlyniadau monitro allweddol a nodwyd ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLl yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i lunio barn ar sail gwybodaeth am gynnydd y Cynllun o ran cyflawni'r targedau/monitro canlyniadau a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn.

### Prif Ganfyddiadau

Dyma'r chweched AMB i'w baratoi ac mae'n cynnig cymhariaeth â'r gwaelodlin data a roddwyd gan yr AMB cyntaf, yr ail a'r trydydd a gyhoeddwyd yn 2017, 2018, 2019 a 2021. Fel yr amlinellir uchod, mae hefyd yn cynnwys data ar gyfer y bedwaredd flwyddyn o fonitro yn 2020 lle'r oedd hwnnw ar gael.

Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r chweched AMB yn gadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o'r dangosyddion a ddangosir yn wyrdd sy'n dangos bod y rhan fwyaf o bolisïau’r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Ceir crynodeb o berfformiad yn erbyn prif bynciau'r Cynllun isod gydag Atodiad 1 yn nodi'r data a'r casgliadau mewn mwy o fanylder.

**Cyflogaeth** – Mae data monitro’n dangos perfformiad cryf parhaus. Yn arbennig o bwysig y mae data sy’n cyfeirio at greu swyddi net - Mae'n ofynnol cael 40,000 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2006-2026. Crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015 ac felly'r targed ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun yw 19,100 o swyddi neu 1,750 o swyddi bob blwyddyn. Ers yr AMB cyntaf (16/17) mae nifer y swyddi wedi dangos cynnydd net ac mae'r AMB diweddaraf yn dangos cynnydd o 8,000 o swyddi ers yr AMB cyntaf (16/17).

**Tai** – Mae data monitro yn dangos bod cartrefi newydd bellach wedi dechrau cael eu cwblhau ar lawer o safleoedd strategol y CDLl. Yn benodol, gwelwyd cwblhau tai newydd ar 4 o'r safleoedd tai strategol:

- Cwblhawyd 954 yn St Ederyns Village;
- Cwblhawyd 739 ar safle strategol gogledd orllewin Caerdydd, sydd â thair lleoliad ar wahân ar y gweill gyda mwy wedi'u cynllunio yn y dyfodol agos;
- Cwblhawyd 216 ar safle strategol gogledd ddwyrain Caerdydd; a
- Cwblhawyd 213 ar y safle strategol i’r gogledd o C33.

Er bod cyfraddau’r rhan fwyaf o’r safleoedd tai strategol yn is na'r targedau a nodir yn yr AMB, mae bellach yn amlwg o’r data uchod bod y dull a arweinir gan Gynllun bellach yn dechrau gyrru'r gwaith o ddarparu cartrefi newydd yn llwyddiannus ar lefel nas gwelwyd am y 10 mlynedd diwethaf. Er enghraifft, mae'r 4 blynedd diwethaf (2018 i 2021) wedi gweld cwblhau 1,133 ar gyfartaledd o’i gymharu â’r 9 mlynedd blaenorol (2008 i 2017) lle'r oedd 725 o unedau ar gyfartaledd yn cael eu cwblhau fesul blwyddyn, heb ddim un flwyddyn uwchlaw 1,000 o unedau ar gyfer y cyfnod hwn.

Mae'r data ar ddarparu tai yn dangos yr 'oedi' rhwng mabwysiadu'r Cynllun a chartrefi yn cael eu cwblhau ar safleoedd newydd a ddyrannwyd yn y Cynllun. Oherwydd cyfuniad o ddwyn safle ynghyd, ffactorau cyfreithiol a logistaidd a brofir gan dirfeddianwyr/datblygwyr ynghyd â'r amser sydd ei angen i sicrhau'r caniatâd cynllunio a mabwysiadu angenrheidiol, mae'r taflwybrau cyflenwi yn arafach na'r disgwyliad gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr amser a dreulir yn sicrhau'r Cytundebau Adran 106 cysylltiedig sy'n cyflawni dyheadau'r Cyngor yn llawn fel y nodir yn y CDLl. Yn gyffredinol, dros y 15 mlynedd rhwng 2006 a 2022 adeiladwyd cyfanswm o 19,638 o anheddau newydd yng Nghaerdydd sy'n cynrychioli 47% o'r gofyniad annedd cyffredinol.

Fodd bynnag, mae'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau neu ar fin dechrau ar y rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol yn dilyn yr ymagwedd uwchgynllunio a’r cynlluniau seilwaith fel y’u nodir yn y cynllun ac felly disgwylir y bydd nifer y tai sy'n cael eu cwblhau dros y 4 blynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun yn cynyddu'n sylweddol.

O ran effaith y pandemig ar gyfraddau adeiladu a chwblhau, roedd tystiolaeth o ychydig o arafu ar y gweithgarwch adeiladu yn 2020 ond mae hyn wedi bod yn fyrdymor fel y gwelwyd gan y ffaith mai 2,497 oedd nifer yr anheddau a oedd yn cael eu codi yn Ebrill 2022, sy’n awgrymu y bydd y cyfraddau cwblhau ar gyfer 2022/23 yn sylweddol uwch na’r 915 a gofnodwyd eleni.

**Tai Fforddiadwy** – Mae'r cynllun yn gosod targed ar gyfer codi 6,646 o unedau fforddiadwy i'w darparu yn y 12 mlynedd rhwng 2014 a 2026 ac mae data monitro yn dangos bod cwblhau tai fforddiadwy yn cynyddu wrth i ystod a’r dewis o safleoedd tai newydd ddechrau dod yn eu blaen. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 1,797 o anheddau fforddiadwy

newydd wedi'u cwblhau ers 2014, sef 24% o gyfanswm y tai newydd a gwblhawyd dros y cyfnod hwn. Disgwylir i'r duedd hon barhau wrth i'r gwaith o adeiladu safleoedd tai strategol y maes glas gyflymu am y 4 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran darparu tai fforddiadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd yn y ddinas.

**Cludiant –** Mae cyfran y bobl sy'n teithio o ganlyniad i ddulliau cludiant cynaliadwy wedi bod yn gyson uwch na chyn y pandemig ac mae wedi cynyddu 5% dros y cyfnod monitro i 53%. Mae lefelau cerdded wedi gweld cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf (+8%) tra bod y cyfran sy'n beicio wedi gostwng (-2%) o gynnydd sylweddol y llynedd, oherwydd bod defnyddwyr yn dychwelyd i deithio fwyfwy ar drafnidiaeth gyhoeddus, er hynny mae lefelau beicio yn parhau'n uwch o'i gymharu â chyn y pandemig. Mae'r defnydd o fysiau a rheilffyrdd wedi cynyddu (+2%) ers 2020/2021 wrth i bobl deimlo hyder cynyddol i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus, a gydag amlder y gwasanaethau'n dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig. Mae swm y traffig wedi cynyddu 33% o'r lefelau isel a welwyd yn 2020/2021 mewn ymateb i'r pandemig, er hynny mae'r traffig yn 2021/2022 yn parhau i fod yn sylweddol is ar 80% (-20%) o'i gymharu â'r lefelau cyn y pandemig. O gymharu data symudedd cyhoeddedig, yn 2020/2021 roedd cymudo ar 49% o'i gymharu â 2019, ac ar 60% yn 2021/2022. Ym mis Awst 2022, roedd cymudo yn parhau ar tua 60% (h.y. sy'n cyfateb i 40% o'r gweithlu yn parhau i weithio gartref).

**Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** - mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi safleoedd i ddiwallu'r angen amlwg am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr parhaol a safleoedd tramwy. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau canlyniadau priodol. O ran safleoedd tramwy, ystyrir mai'r ffordd orau o ystyried y rhain fyddai ar sail ranbarthol, gan ofyn am gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos drwy broses baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol arfaethedig

**Canllawiau Cynllunio Atodol** – Gwnaed cynnydd sylweddol o ran cynhyrchu rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) newydd ac ers mabwysiadu'r CDLl mae 18 CCA wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor i gefnogi'r polisïau yn y Cynllun mabwysiedig.

**Newidiadau Cyd-destunol** – mae'r adolygiad cyd-destunol yn amlygu newidiadau sylweddol yn y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi esblygu'n sylweddol dros y pum cyfnod monitro diwethaf. Yn benodol, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC, Rhifyn 10, Rhagfyr 2018 a PCC, Argraffiad 11, Chwefror 2021) a chyhoeddi Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021) wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith polisi lefel uchel.

## Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)

Mae Adran 6 yr AMB yn ehangu ar yr asesiad o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r AC. Mae hyn yn rhoi cymhariaeth â'r data gwaelodlin a roddwyd gan yr AMB cyntaf, yr ail a'r trydydd a gyhoeddwyd yn 2017, 2018 a 2019.

## Casgliadau

Mae'r 6ed AMB yn cynnig cymhariaeth â'r data gwaelodlin a roddwyd gan yr AMB cyntaf, yr ail, y trydydd a'r pumed a gyhoeddwyd yn 2017, 2018, 2019 a 2021 ynghyd â data a gasglwyd ar gyfer y bedwaredd flwyddyn lle'r oedd hwn ar gael. Y casgliadau allweddol yn y chweched blwyddyn o adrodd, yw bod cynnydd da yn cael ei wneud yn gyffredinol o ran cyflawni'r targedau a nodwyd a monitro canlyniadau a gellir defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio'r gwaith parhaus o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

# Cardiff Local Development Plan 6th Annual Monitoring Report 2022 (Based on data collected for period 1st April 2021 to 31st March 2022)

## Executive Summary

The Cardiff Local Development Plan (LDP) was adopted on 28 January 2016. As part of the statutory development plan process the Council is required to prepare an Annual Monitoring Report (AMR).

The AMR provides the basis for monitoring the effectiveness of the LDP and ultimately determines whether any revisions to the Plan are necessary. It aims to demonstrate the extent to which the LDP strategy and objectives are being achieved and whether the Plan's policies are functioning effectively. It also allows the Council to assess the impact the LDP is having on the social, economic and environmental well-being of the County and identifies any significant contextual changes that may influence plan implementation or review.

This is the sixth AMR to be prepared since the adoption of the Cardiff LDP and is based on data collected for the period 1st April 2021 to 31st March 2022. The first, second and third AMRs was published on 31st October 2017, 31st October 2018 and 31st October 2019. Due to the Covid pandemic Welsh Government did not require Local Planning Authorities to submit and publish an AMR by the 31st October 2020 and no fourth AMR was therefore published. However, data was still collected where possible and is included in the time series presented in this report. The fifth AMR was published on 31st October 2021. This data provides a baseline for future comparative analysis from which successive AMRs will be able to evidence the emergence of trends.

### Key Findings of the Sixth Monitoring Process 2021-2022

### Contextual Information

A summary of the relevant contextual material that has been published since the adoption of the Plan at a national, regional and local level, along with general economic trends is included in Section 3. The implications of some of the contextual changes will take place over the longer term and subsequent AMRs will continue to provide updates on relevant contextual material and give further consideration to any changes which could affect the Plan's future implementation.

### Local Development Plan Monitoring – Policy Analysis

Section 5 assesses how the Plan's strategic policies and associated supporting policies are performing against the identified key monitoring targets and outcomes and whether the LDP strategy and objectives are being delivered. This has enabled the Council to make an informed judgement of the Plan's progress in delivering the targets/monitoring outcomes and policies during this monitoring period.

### Key Findings

This is the sixth AMR to be prepared and provides a comparison with the baseline data provided by the first, second and third and fifth AMRs published in 2017, 2018 and 2019 and 2021. As outlined above it also includes data for the fourth year of monitoring in 2020 where this was available.

Overall, the findings of the sixth AMR are positive with the majority of the indicators shown as green indicating that most LDP policies are being implemented effectively. A summary of

performance against the main Plan topics are set out below with Appendix 1 setting out the data and conclusions in more detail.

**Employment** – Monitoring data shows continuing strong performance. Of particular importance is data regarding net job creation - There is a requirement for 40,000 new jobs over the plan period 2006-2026. 20,900 jobs were created between 2006 and 2015 and therefore the target for the remaining plan period is 19,100 jobs or 1,750 jobs annually. Since the first AMR (16/17) the number of jobs has shown a net increase and the latest AMR shows an increase of 8,000 jobs since the first AMR (16/17).

**Housing** – Monitoring data shows new homes have now started to be completed on many of the LDP strategic housing sites. Specifically, there are new completions on 4 of the strategic housing sites:

- 954 completions have been achieved at St Ederyns Village;
- 739 completions have been achieved on the North West Cardiff strategic site, which has three separate outlets underway with more planned in the near future;
- 216 completions have been recorded on the North East Cardiff strategic site; and
- 213 completions have been achieved at the North of J33 strategic site.

Although most of the strategic housing site completion rates are below targets set out in the AMR it is now evident from the above data that the Plan-led approach is now starting to successfully drive the delivery of new homes at a level not seen for the last 10 years. For example, completions for the last 4 years (2018 to 2022) have averaged 1,133 in contrast with the previous 9 years (2008 to 2017) where completions averaged 725 units per annum, with no year above 1,000 units for this period.

The data on housing delivery demonstrates the 'lag' between Plan adoption and homes being completed on new sites allocated in the Plan. Due to a combination of site assembly, legal and logistical factors experienced by landowners/developers along with the time required to secure the necessary planning and adoption consents, trajectories of delivery are slower than originally anticipated. This includes time spent securing the accompanying Section 106 Agreements which fully deliver the Council's aspirations as set out in the LDP. Overall, over the 15 years between 2006 and 2022 a total of 19,638 new dwellings were built in Cardiff which represents 47% of the overall dwelling requirement.

However, construction has now started on most of the strategic housing sites following the master planning and infrastructure plans approach as set out in the plan and it is therefore expected that housing completions over the remaining 4 years of the Plan period will increase significantly.

In terms of the impact of the pandemic on construction and completion rates there was evidence of a slight slow-down in construction activity in 2020 but this has been short term as evidenced by the fact the number of homes under construction in April 2022 was 2,497 dwellings, which indicates that completions for the next monitoring year 2022/23 will be substantially higher than the 915 recorded this year.

**Affordable Housing** – The plan sets a target for the delivery of 6,646 affordable units to be provided for the 12 years between 2014 and 2026 and monitoring data shows that affordable housing completions are increasing as a range and choice of new housing sites begin to come forward. The latest figures show that 1,797 new build affordable dwellings were completed since 2014, which represents 24% of total new build housing completions over this period. This trend is expected to continue as construction of the greenfield strategic housing sites gathers pace for the remaining 4 years of the Plan period. These figures show

that good progress is being made in delivering affordable housing to meet the identified need within the city.

**Transportation –** The proportion of people travelling by sustainable modes of transport has been consistently higher than prior to the pandemic and has increased 5% over the monitoring period to 53%. Walking levels have seen significant increases over the past year (+8%) whilst the proportion cycling has decreased (-2%) from last year's significant rise, due to users increasingly returning to travel by public transport, nevertheless cycling levels remain higher than relative to prior to the pandemic. Bus and rail use has increased (+2%) from 2020/2021 as people increasingly feel confidence to return to public transport, and with service frequency returning to those of pre-pandemic levels. Traffic volumes have increased by 33% from the low levels seen in 2020/2021 in response to the pandemic, nevertheless the traffic in 2021/2022 remain significantly down at 80% (-20%) relative to pre-pandemic levels. Comparing published mobility data, in 2020/2021 commuting was at 49% relative to 2019, and at 60% in 2021/2022. As of August 2022, commuting remains at around 60% (i.e. equivalent to 40% of the workforce continuing to work from home).

**Gypsy and Traveller Sites -** work is progressing the identification of sites to meet the evidenced need for permanent and transit Gypsy and Traveller sites. This has included discussions with the Welsh Government and work continues to secure appropriate outcomes. In terms of transit sites, it is considered that these would best be considered on a regional basis, requiring collaboration with neighbouring local authorities through the forthcoming Strategic Development Plan preparation process.

**Supplementary Planning Guidance** – Significant progress has been made in producing a programme of new Supplementary Planning Guidance (SPG) and since adoption of the LDP 18 SPGs have been approved by Council to support the policies in the adopted Plan.

**Contextual Changes** – the contextual review highlights significant changes in the national planning policy framework which has evolved significantly over the five monitoring periods. In particular, Planning Policy Wales (PPW, Edition 10, December 2018 & PPW, Edition 11, February 2021) and the publication of Future Wales: The National Plan 2040 (February 2021) have made significant changes to the high-level policy framework.

## Sustainability Appraisal (SA) Monitoring

Section 6 expands the assessment of the performance of the LDP against the SA monitoring objectives. This provides a comparison with the baseline data provided by the first, second and third AMRs published in 2017, 2018 and 2019.

## Conclusions

The 6$^{th}$ AMR provides a comparison with the baseline data provided by the first, second, third and fifth AMRs published in 2017, 2018, 2019 and 2021 together with data collected for the fourth year where this was available. The key conclusions in the sixth year of reporting, are that good progress is generally being made in delivering the identified targets and monitoring outcomes and these findings can be used to inform the ongoing preparation of the replacement Local Development Plan.